
Dyma Sir Gâr | This is Carmarthenshire

darganfodsirgar.com | discovercarmarthenshire.com

# Dyffryn Aman



Hen Weithfeydd Haearn



Y Mynydd Du



Afon Aman

**Pam Dewis Cerdded?**
Mae'r llwybr poblogaidd hwn o Frynaman i Rydaman yn dilyn wrth ymyl Afon Aman.  Mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr, gan fynd trwy goetiroedd, lonydd deiliog a pharcdir. Mae'r pentrefi yn Nyffryn Aman wedi ehangu oherwydd y chwyldro diwydiannol yn y 19eg ganrif. Ychydig iawn o arwyddion amlwg o'r cyfnod diwydiannol hwn y gellir eu gweld nawr. Mae'r tomenni sbwriel a'r safleoedd diwydiannol wedi cael eu haildirlunio ac wedi dychwelyd i fod yn goetiroedd a thir amaethyddol. Mae siopau, tafarndai a chaffis yn y pentrefi ar hyd y daith. Mae gan bob pentref baneli gwybodaeth treftadaeth sy'n tynnu sylw at yr hanes a'r bywyd gwyllt ym mhob ardal.

**Pa mor bell?**
Mae'r llwybr llinellol hwn ychydig o dan 9km o hyd (5½ milltir) ac yn disgyn 154 metr (505 troedfedd) gan godi 23 metr (75 troedfedd) yn unig.

**Pa mor anodd?**
Mae arwyneb i'r llwybr cyfan ac mae'n ddelfrydol ar gyfer grwpiau teulu, neu bobl sydd â phroblemau symudedd. Gellir cael mynediad i'r llwybr yn rhwydd o bob pentref ar hyd y daith ac felly gellir cwblhau'r nifer o rannau gwahanol un cam ar y tro.

**Y Man Cychwyn** - Mae dechrau'r daith gerdded ger Heol yr Orsaf, ar y llwybr beicio. Trowch i'r dde ar Heol yr Orsaf ac ewch heibio i'r tir rygbi i'r llwybr sydd wedi'i darmacio ar hyd Afon Aman.

**Y Maes Parcio** - Canolfan y Mynydd Du, Brynaman Uchaf a hefyd yn Rhydaman


**Trafnidiaeth Gyhoeddus** - ✔

**Lluniaeth** - ✔

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

# Mannau o ddiddordeb




© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100023377

**1** Saif Brynaman ar ymyl y Mynydd Du a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Roedd glo a mwyn haearn ar gael yn lleol ac arweiniodd hyn at adeiladu dwy ffwrnais chwyth i fwyndoddi haearn, gweithfeydd tunplat, ffatri friciau, rheilffordd a gorsaf - ac mae'r cyfan oll wedi mynd erbyn hyn.

**2** Oddi ar y llwybr beicio ar ochr arall Afon Aman y mae Parc Natur Ynys Dawela ac mae modd cael mynediad iddo dros bont droed gul. Arferai pwll glo fod ar y safle hwn ac mae bellach yn ardal sydd â choetir a dolydd sy'n llawn blodau.

**3** Mae'r afon a'i glannau yn gynefinoedd pwysig ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'n bosibl gweld amrywiaeth o adar y dŵr megis hwyadwyddau, glas y dorlan, hwyaid gwylltion, bronfraith fach y dŵr a sigl-i-gwt.

**4** Byddwch yn mynd i Gastell-nedd Port Talbot am ychydig cyn croesi dwy heol i gyrraedd y Garnant. Yn y man lle y mae Afon Cwm Garnant ac Afon Aman yn cydlifo, mae maes parcio bach sydd â man eistedd lle roedd 'The Palais Cinema' yn arfer bod.

**5** O safle'r 'Palais', croeswch yr afon i barcdir.

**6** Ewch heibio i'r bont grog gul (sy'n darparu mynediad i'r brif heol) ac yna i mewn i ran fwy coediog o'r daith i lawr i Bontaman a'r heol i mewn i ganol tref Rhydaman.

**7** Erbyn 1911 roedd Rhydaman yn aneddiad diwydiannol ffyniannus, ac yn awdurdod ar y maes glo yn Sir Gaerfyrddin ym mhob ffordd.   Yn ôl y chwedlau bu'r Brenin Arthur a'i farchogion yn hela'r Twrch Trwyth ar lethrau Dyffryn Aman. Mae'r twrch yn nodwedd ar fyrddau gwybodaeth y llwybr hanesyddol ac yn y cerfluniau metel mawr yn Rhydaman.